**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG**
**(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A**
**LLWYTHO A MANNAU PARCIO)**
**(GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) (RHIF 11) 2021**

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn rhoi'r cyfyngiadau parcio a nodir yn Atodlen isod ar waith.
2. Gellir archwilio manylion llawn y cynigion, gan gynnwys y Gorchymyn arfaethedig a'r Cynllun Rhif T/20/76/MS ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a all fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF929) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **Dydd Gwener 24 Rhagfyr 2021** ac mae'n rhaid cynnwys eich sail dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:

**Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013**

**ATODLEN**

**Insert into Map Schedules AR31 and AS31**

**NI fydd y cyfyngiadau canlynol yn gymwys, pan fo'r marciau wedi'u hepgor wrth fynedfa â gât, croesfan cerbydau neu gerddwyr, ar unrhyw un o'r ffyrdd a enwir.**

**Gorchymyn Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg Arfaethedig**

**St Athan Road, Sain Tathan**

Ar yr ochr ogleddol, o'r gyffordd-gylchfan â Heol y Bont-faen, Eglwys Brewys Road a Ffordd y Spitfire, tua'r gorllewin am bellter o tua 75 metr.

Ar yr ochr ddeheuol, o'r gyffordd-gylchfan â Heol y Bont-faen, Eglwys Brewis Road a Ffordd y Spitfire, tua'r gorllewin am tua 80 metr.

**Eglwys Brewis Road, Sain Tathan**

Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r gyffordd-gylchfan â Heol y Bont-faen, St Athan Road a Ffordd y Spitfire, tua'r de-orllewin am tua 38 metr.

Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd-gylchfan â Heol y Bont-faen, St Athan Road a Ffordd y Spitfire, tua'r de-orllewin am tua 46 metr.

**Heol y Bont-faen, Sain Tathan**

Ar yr ochr ogleddol, o'r gyffordd-gylchfan ag Eglwys Brewis Road, Ffordd y Spitfire a St Athan Road, i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol hyd at y gyffordd â Chae'r Victor, pellter o tua 215 metr.

Ar yr ochr ogleddol, o'r gyffordd â Chae'r Victor, i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol i'r gyffordd â Flemingston Road, pellter o tua 90 metr.

Ar yr ochr ddeheuol, o'r gyffordd-gylchfan ag Eglwys Brewis Road, Ffordd y Spitfire a St Athan Road i gyfeiriad y de-ddwyrain yn gyffredinol, yn gyffiniol â'r gwaharddiad aros ar unrhyw adeg presennol, pellter o tua 365 metr.

**Ffordd y Spitfire, Sain Tathan**

Ar yr ochr orllewinol, o'r gyffordd-gylchfan â Heol y Bont-faen, Eglwys Brewis Road a St Athan Road, tua'r gogledd am tua 25 metr.

Ar yr ochr ddwyreiniol, o'r gyffordd-gylchfan â Heol y Bont-faen, Eglwys Brewis Road a St Athan Road, tua'r gogledd am tua 27 metr.

**Cae'r Victor, Sain Tathan**

Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r gyffordd â Heol y Bont-faen, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am tua 38 metr.

Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd â Heol y Bont-faen tua'r gogledd-ddwyrain yn gyffredinol am tua 17 metr.

**Flemingston Road, Sain Tathan**
Ar ochr y gogledd-orllewin o'r gyffordd â Heol y Bont-faen, tua'r gogledd-ddwyrain am tua 20 metr.
Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd â Heol y Bont-faen ac yn gyffiniol â'r gwaharddiad aros ar unrhyw adeg presennol, tua'r gogledd-ddwyrain am tua 15 metr.

Dyddiedig 2 Rhagfyr 2021.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Depo'r Alpau, Gwenfô CF5 6AA